Children in Wales
Plant yng Nghymru

CHAPPIE NETWORK INFORMATION BULLETIN

BWLETIN GWYBODAETH RHWYDWAITH CHAPPIE

Yn y Rhifyn Yma / In This Issue

Bilingual resource for Child Safety Week

CHAPPIE Network event

TACTICS

Blind cord safety

Reports and documents

News

Research

Resources

Adnodd dwyieithog ar gyfer Wythnos Diogelwch Plant

Digwyddiad Rhwydwaith CHAPPIE

TACTICS

Diogelwch Cortynnau Bleindiau

Adroddiadau a dogfennau

Newyddion

Ymchwil

Adnoddau

Cysylltiadau / Links

CHAPPIE Network Webpage

JANUARY 2012/IONAWR 2011

Cliciwch yma ar gyfer y fersiwn Gymraeg.

This is the latest edition of the Child Accident Prevention Practice and Information Exchange Network Information Bulletin prepared by Children in Wales. It contains the latest news, research and reports from the field of Child Accident Prevention.

If you do not wish to recieve this occasional e-briefing, please let us know by emailing info@childreninwales.org.uk.

If you feel your colleagues would benefit from this information, please forward.

Bilingual resource for Child Safety Week *DEADLINE 31st JANUARY*

Do you need an effective bilingual resource for parents on how to help prevent their children from having serious accidents?

One Step Ahead is an innovative safety wallchart from the Child Accident Prevention Trust (CAPT) for parents and carers of 0-2 year-olds. Beautifully illustrated in full colour, it consists of an at-a-glance matrix which matches the child's age and development to hazards in the home, arming parents with the knowledge they need to stay one step ahead in preventing their child having a serious accident in the home.

In collaboration with Children in Wales, CAPT is planning, if there is sufficient demand, to produce a version with Welsh on one side and English on the reverse. Packs of 50 full-colour wallcharts are available for £50 including p&p.

To pre-order, simply email gillian.colver@capt.org.uk with details for invoicing and delivery by 31 January 2012. If we receive a minimum of 20 orders, the wallcharts will be printed and despatched in February along with your invoice.

CHAPPIE Network event

Resources, Tools and Ideas for Child Safety Week- Helping You Plan & Evaluate Your Events

10am - 12.30pm, 23 February at Dangerpoint, Holywell, Flintshire
10am - 12.30pm, 9 March at Merthyr Integrated Children's Centre

The event will be jointly delivered by Karen McFarlane, Children in Wales and the Child Accident Prevention Trust (CAPT)

The aim of each workshop is to help you plan effective child safety activities and to arm you with ideas and resources for your events. These resources will not only be useful for Child Safety Week in June, but for your other child safety activities throughout the year.

For full details please visit the events page on the Children in Wales website.

TACTICS

TACTICS (Tools to Address Childhood Trauma, Injury and Children's Safety) is a large scale initiative of the European Child Safety Alliance involving all 27 EU Member States, Croatia, Iceland, Israel, Norway and Switzerland. It will run from April 2011 through to March 2014 and is working to make the lives of children in Europe safer by developing tools to increase adoption and implementation of effective interventions at the national and local levels.

TACTICS is important because it:

- Is working to address the leading cause of child death, disability and inequalities in Europe Supports children's right to safety as stated in the UN Convention on the Rights of the Child
- Examines intentional and unintentional child injuries nationally and sub-nationally
- Supports the development and implementation of Child Safety Action Plans
- Is aimed at developing practical tools and resources to support uptake, implementation and monitoring of evidence-based child safety policies

TACTICS is led by the European Child Safety Alliance. It is supported by the European Commission and has partners from more than 30 European countries. Welsh partners are Children in Wales and Swansea University.

Blind cord safety

European Commission Decision on safety requirements of

internal blinds, corded window coverings and safety devices

A European Commission Decision, published in the official journal on 28 July 2011, has changed requirements on manufacturers in relation to the safety of blind cords.

A revised version of European safety standard EN 13120:2009 redefines what constitutes a "safe product":

The new safety standard will apply to all internal blinds and corded window coverings in all buildings where children aged 0-42 months have access and are likely to be present, and contains the following provisions:

- Window coverings should not form a dangerous loop
- If this doesn't eliminate the risk that a hazardous loop is formed, then an appropriate safety device should be provided
- Safety devices should ideally provided as an integral part of the product
- If the safety device is not integral it shall be pre-installed on the operating cord/chain with a warning message; "Children can strangle if this device is not installed. Read carefully the instructions and install accordingly. Always use this device to keep cords or chains out of the reach of children"

You can read the full decision .

Make it Safe!

Don't forget that the excellent *Make It Safe* leaflet, which provides information on the prevention of blind cord accidents, is now available in Welsh.

Children in Wales have worked in partnership with the British Blind and Shutter Association (BBSA) to produce this bilingual leaflet about the dangers of looped blind cords and chains.
Make it Safe! leaflet
To find out more about The British Blind and Shutter Association's 'Make it Safe' campaign, please visit www.makeitsafe.org.uk.

The Royal Society for Prevention of Accidents campaign

Blind Cord Safety Campaign
Since 2004, RoSPA has called upon the blind industry to take voluntary action to reduce the risk of looped cords and we are now working with the Department for Business, Innovation and Skills (BIS), CEN (the European Committee for Standardisation), the British Blind and Shutter Association (BBSA) and the Child Accident Prevention Trust (CAPT) to investigate design modifications and raise awareness of the safety issues.

Blind cord tragedy

Toddler death highlights blind cord danger
A grieving couple have warned other parents about the dangers of blind cords after the tragic death of their son who was 21 months old.

Toddler injury

Girl, two, left brain-damaged after accidentally hanging herself on window blind cord
A toddler has been left paralysed for life after her neck became trapped in the cord of a window blind.

Reports and documents

Resuscitation guidelines

New UK newborn resuscitation guidelines were published online on the 18th of October 2011 simultaneously with the European guidelines.

Gas safety Incident Report

This year's report, which covers from 1 July 2009 up to 30 June 2010, records the official figure of only four deaths from carbon monoxide exposure to natural gas throughout Great Britain, being the lowest since records were started in 1996. You can download the report here.

House of Commons Health Select Committee - public health inquiry: Written evidence from Child Accident Prevention Trust

This report, from the Child Accident Prevention Trust has been published by the House of Commons along with other written evidence been submitted to the Health Select Committee's inquiry into public health. It advocates that a strong focus on children and young people should be maintained in any new approach to public health.

News

Children's Hospital for Wales

£63.8m expansion backed
The Welsh government has pledged funding for new wards, critical care facilities and four operating theatres.

Cot death

Study adds to cot death concerns over co-sleeping
Nearly two-thirds of babies whose cot deaths were referred to Great Ormond Street for autopsy were co-sleeping with parent, The Guardian has reported.

Thermostatic mixing valves

Thermostatic mixing valves could save NHS over £3 million a year

Installing temperature controlled thermostatic mixing valves in the UK's social housing properties could save the NHS more than £3 million a year according to a new report.

Research

Injury prevention

Coroner's investigations recommendations
This research examines the characteristics of coroners' recommendations for injury prevention when applying a Public Health Framework.

Carbon monoxide fatalities
A study was carried out on non-fire related carbon monoxide deaths, and how this relates to sources of carbon monoxide in homes.

Intentional injury
Research has been carried out on community attitudes to intentional injury and its prevention.

Road safety

Graduate driver licensing
Graduated driver licensing is examined as a means of reducing crash rates among novice drivers by gradually introducing them to higher risk driving situations in this study.

Child car safety practices
This study involved an observational survey of child car safety practices is Lagos State, Nigeria.

Crashes and risky driving
This research compared rates of risky driving among novice adolescent and adult drivers over the first 18 months of adolescents' licensure.

Drink and drug driving with children as passengers
This paper looks at the implications for caregivers and intervention of being 'under the influence' with a child in the car.

Drowning and water safety

Teaching water safety
This is an evaluation of a water-safety curriculum which was run at a summer camp in an urban setting.

Multiple drowning syndromes
This research examines unintentional drowning, and secondary accidents when a rescue is attempted.

Burns and scalds

Burn Injuries requiring hospitalisation

This was an investigation burn injuries requiring hospitalization sustained during the first year of life, clinical data collected during hospital treatment of infants younger than 1 year were reviewed.

Behaviors of young children around microwave ovens
This study assess the ability of young children to remove items safely from a microwave.

Keeping safe around dogs

Facial dog bite injuries in children
The aim of this review was to examine 77 cases of facial dog bites and produce a new scale of gravity.

Safety with dogs
This study evaluated the effectiveness of software designed to teach children how to interact safely with dogs.

Falls

Descriptive study of falls among children aged under 15
This study analyses the occurrence of falls among children aged under 15 living in Londrina, Paraná.

Falls from heights in Paediatrics
This is a study into falls as a preventable cause of injury and morbidity in children.

Sports and physical activity

Trend of severe abdominal injuries from bicycle accidents in children: A preventable condition
Bicycle accidents are a common cause of abdominal injuries. This review aims to establish the trend and the associated risk factors of bicycle-related abdominal injuries.

Serious neck injuries in U19 rugby union players
This research involved an audit of spinal injuries admissions of U19 players in Great Britain and Ireland, in comparison with a recent peak in presentation of such injuries in Scotland.

Risk factors for injury in rugby union (New Zealand)
This study was carried out to identify the main risk factors for ameteur rugby players**.**

Physical activity-related injuries
This study describes physical inactivity as one of the risk factors for injuries resulting from physical education (PE), leisure time physical activity (leisure time PA) and sports in 9-12-year-old children.

Choking risks

Choking hazards
The aim of this study was to evaluate parent knowledge regarding household food and non-food choking hazards.

Oesophageal button battery injuries
This paper describes the cases of two infants with complications following accidental button battery ingestion with delayed presentations to medical care.

Reviews post-hospitalisation

Amputations
A review was carried out on the demographic information of traumatic amputations carried out on children and young people from the 1930s to the present time.

Disability after head injury
This study examines the incidence of disability 3, 12, and 24 months after traumatic brain injury among children and adolescents.

Resources

Medicines for children
The Medicines for Children website contains lots of useful and reliable information about giving medicines to children - written and reviewed by paediatritions, pharmacists, and parents and carers.

Research Summaries - young people's health and well-being
The Child and Maternal Health Observatory is working with the Association of Young People's Health (AYPH) to produce Research Summaries on key issues affecting young people's health and well-being. These summaries will help promote evidence-based practice by making research findings more accessible**.** Find out more here.

BWLETIN GWYBODAETH RHWYDWAITH CHAPPIE

Hwn yw'r rhifyn diweddaraf o Fwletin Gwybodaeth y Rhwydwaith Cyfnewid Arferion a Gwybodaeth am Atal Damweiniau i Blant (CHAPPIE), a baratowyd gan Plant yng Nghymru. Mae'n cynnwys y newyddion, ymchwil a'r adroddiadau diweddaraf o faes Atal Damweiniau i Blant.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-gyfarwyddiad achlysurol hwn, gadewch inni wybod, os gwelwch yn dda, drwy e-bostio i info@plantyngnghymru.org.uk

Os ydych yn teimlo y byddai'ch cydweithwyr yn elwa o'r wybodaeth hon, cofiwch ei hanfon ymlaen.

Adnodd dwyieithog ar gyfer Wythnos Diogelwch Plant *DYDDIAD CAU 31ain IONAWR*

Oes angen adnodd dwyieithog effeithiol arnoch chi ar gyfer rhieni, i'w

helpu i atal eu plant rhag cael damweiniau difrifol?

Siart wal diogelwch arloesol yw Un Cam Ar y Blaen / One Step Ahead, a luniwyd gan yr Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau Plant (CAPT) ar gyfer rhieni a gofalwyr plant 0-2 oed. Gyda darluniau lliwgar deniadol, mae'n cynnwys matrics hawdd ei ddilyn sydd yn paru oedran a datblygiad y plentyn â pheryglon yn y cartref, gan olygu bod gan rieni'r wybodaeth angenrheidiol i aros un cam ar y blaen ac atal eu plentyn rhag dioddef damwain ddifrifol yn y cartref.

Ar y cyd â Plant yng Nghymru, mae CAPT yn bwriadu, os bydd galw digonol, cynhyrchu fersiwn gyda Chymraeg ar un ochr a Saesneg ar y llall. Mae pecynnau o 50 siart wal lliwgar ar gael am £50, sydd yn cynnwys pecynnu a phostio.

I archebu ymlaen llaw, anfonwch e-bost at gillian.colver@capt.org.uk gyda manylion anfonebu a dosbarthu erbyn 31 Ionawr 2012. Os derbyniwn isafswm o 20 archeb, bydd y siartiau wal yn cael eu hargraffu a'u dosbarthu ym mis Chwefror, ynghyd â'ch anfoneb.

Digwyddiad Rhwydwaith CHAPPIE

Adnoddau, Offer a Syniadau ar gyfer Wythnos Diogelwch Plant - Eich Helpu i Gynllunio a Gwerthuso eich Digwyddiadau

10am - 12.30pm, 23 February yn Dangerpoint, Treffynnon, Sir y Fflint
10am - 12.30pm, 9 Mawrth yng Nghanolfan Blant Integredig Merthyr

Cyflwynir y digwyddiad ar y cyd gan Karen McFarlane, Plant yng Nghymru a'r Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau Plant (CAPT)

Nod pob gweithdy yw eich helpu i gynllunio gweithgareddau diogelwch plant effeithiol a'ch arfogi â syniadau ac adnoddau ar gyfer eich digwyddiadau. Bydd yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol nid yn unig ar gyfer Wythnos Diogelwch Plant ym mis Mehefin, ond hefyd ar gyfer eich gweithgareddau diogelwch plant eraill ar hyd y flwyddyn.
I gael manylion llawn ewch i dudalen digwyddiadau gwefan Plant yng Nghymru.

TACTICS

Menter ar raddfa fawr gan Gynghrair Diogelwch Plant Ewrop yw TACTICS (Tools to Address Childhood Trauma, Injury and Children's Safety), ac mae'n cynnwys pob un o 27 Aelod-wladwriaeth yr UE, Croatia, Gwlad yr Iâ, Israel, Norwy a'r Swistir. Bydd yn parhau o fis Ebrill 2011 hyd at fis Mawrth 2014, ac mae'n gweithio i wneud bywydau plant yn Ewrop yn fwy diogel trwy ddatblygu offer a fydd yn golygu bod mwy o ymyrraeth effeithiol yn cael ei mabwysiadu a'i gweithredu ar lefel genedlaethol a lleol.

Mae TACTICS yn bwysig oherwydd ei fod:

- Yn gweithio i ymdrin â phrif achosion marwolaethau, anableddau ac anghydraddoldebau plant yn Ewrop

- Yn cefnogi hawl plant i ddiogelwch, fel y nodir yng Nghonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn
- Yn edrych ar anafiadau bwriadol ac anfwriadol i blant yn genedlaethol, ac ar lefel is-genedlaethol
- Yn cefnogi datblygiad a gweithrediad Cynlluniau Gweithredu Diogelwch Plant
- Yn ceisio datblygu offer ac adnoddau ymarferol i gynnal sefydlu, gweithredu a monitro polisïau diogelwch plant a seiliwyd ar dystiolaeth

Arweinir TACTICS gan Gynghrair Diogelwch Plant Ewrop. Fe'i cefnogir gan y Comisiwn Ewropeaidd ac mae'n gweithio gyda phartneriaid o fwy na 30 o wledydd yn Ewrop. Y partneriaid yng Nghymru yw Plant yng Nghymru a Phrifysgol Abertawe.

Diogelwch Cortynnau Bleindiau

Penderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch gofynion diogelwch bleindiau mewnol, gorchuddion ffenestri sydd â chortynnau a dyfeisiau diogelwch

Mae Penderfyniad gan y Comisiwn Ewropeaidd, a gyhoeddwyd yn y cofnod swyddogol ar 28 Gorffennaf 2011, wedi newid y gofynion i wneuthurwyr o ran diogelwch cortynnau bleindiau.

Mae fersiwn ddiwygiedig o safon ddiogelwch Ewropeaidd EN 13120:2009 yn ailddiffinio "cynnyrch diogel":

Bydd y safon ddiogelwch newydd yn berthnasol i bob bleind mewnol a gorchudd ffenestr â chortyn ym mhob adeilad y mae gan blant 0-42 mis fynediad iddo a lle maent yn debygol o fod yn bresennol, ac mae'n cynnwys y darpariaethau canlynol:

- Ni ddylai gorchuddion ffenestri greu dolen beryglus
- Os na fydd hyn yn dileu'r risg y gellid creu dolen beryglus, dylid darparu dyfais ddiogelwch briodol
- Yn ddelfrydol, dylid darparu dyfeisiau diogelwch fel rhan annatod o'r cynnyrch
- Os nad yw'r ddyfais ddiogelwch yn rhan annatod, rhaid ei gosod ar y cortyn/gadwyn ymlaen llaw gyda neges yn rhybuddio fel a ganlyn: "Gall plant dagu os na chaiff y ddyfais hon ei gosod yn ei lle. Darllenwch y cyfarwyddiadau yn ofalus, a'u defnyddio i'w gosod. Defnyddiwch y ddyfais hon bob amser i gadw cortynnau neu gadwyni allan o afael plant"

Gallwch ddarllen y penderfyniad llawn .

Gwnewch hi'n ddiogel!

Peidiwch ag anghofio bod taflen ardderchog *Make It Safe*, sydd yn rhoi gwybodaeth ynghylch atal damweiniau cortynnau bleindiau, bellach ar gael yn Gymraeg.

Mae Plant yng Nghymru wedi gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Bleindiau a Chaeadau Ffenestri Prydain (BBSA) i gynhyrchu'r daflen ddwyieithog hon ynghylch peryglon cortynnau bleindiau a chadwyni dolennog.
Taflen Gwnewch hi'n Ddiogel!
I gael rhagor o wybodaeth am ymgyrch 'Gwnewch hi'n Ddiogel' Cymdeithas Bleindiau a Chaeadau Ffenestri Prydain, ewch i www.makeitsafe.org.uk.

Ymgyrch y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA)

Ymgyrch ynghylch Diogelwch Cortynnau Bleindiau
Ers 2004, mae RoSPA wedi galw ar y diwydiant bleindiau i weithredu o wirfodd i leihau perygl cortynnau dolennog, ac rydym bellach yn gweithio gyda'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS), CEN (Pwyllgor Safoni Ewrop), Cymdeithas Bleindiau a Chaeadau Ffenestri Prydain (BBSA) a'r Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau Plant (CAPT) i ymchwilio i addasiadau dylunio a chynyddu ymwybyddiaeth o'r materion diogelwch.

Trychineb cortyn bleind

Marwolaeth plentyn bach yn tynnu sylw at berygl cortynnau bleindiau
Mae rhieni sy'n galaru wedi rhybuddio eraill am beryglon cortynnau bleindiau yn dilyn marwolaeth drychinebus eu mab yn 21 mis oed.

Anaf i blentyn bach

Ymennydd merch dwy oed yn dioddef anaf ar ôl iddi ei chrogi ei hun yn ddamweiniol ar gortyn bleind ffenestr
Mae plentyn bach wedi ei pharlysu am oes ar ôl i'w gwddf gael ei ddal yng nghortyn bleind ffenestr.

Adroddiadau a dogfennau

Canllawiau dadebru

Cyhoeddwyd canllawiau newydd y DU ar gyfer dadebru plant newyddeni ar-lein ar 18fed Hydref, yr un pryd â chanllawiau Ewrop.

Adroddiad Achosion - Diogelwch Nwy

Mae adroddiad eleni, sy'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Gorffennaf 2009 tan 30 Mehefin 2010, yn cofnodi ffigur swyddogol o bedair marwolaeth yn unig ledled Prydain Fawr yn sgîl dod i gysylltiad â charbon monocsid nwy naturiol. Dyma'r ffigur isaf ers dechrau cofnodi yn 1996. Gallwch lawrlwytho'r adroddiad yma.

Pwyllgor Dethol Ty'r Cyffredin ar Iechyd - ymchwiliad iechyd cyhoeddus: Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau Plant

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn, a luniwyd gan yr Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau Plant, gan Dy'r Cyffredin, ynghyd â thystiolaeth ysgrifenedig arall a gyflwynwyd i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol ar Iechyd i iechyd cyhoeddus. Mae'n argymell cynnal ffocws cadarn ar blant a phobl ifanc mewn unrhyw ddull newydd o ymdrin â iechyd cyhoeddus.

Newyddion

Ysbyty Plant i Gymru

Cefnogi ehangu gwerth £63.8 miliwn
Mae Llywodraeth Cymru wedi addo ariannu wardiau newydd, cyfleusterau gofal critigol a phedair theatr ar gyfer llawdriniaethau.

Marwolaeth yn y Crud

Astudiaeth yn ychwanegu at bryderon ynghylch cyd-gysgu yng nghyd-destun marwolaeth yn y crud
Yn ôl adroddiad yn The Guardian, roedd bron dau draean o'r babanod y cyfeiriwyd eu marwolaethau yn y crud i Great Ormond Street ar gyfer awtopsi yn cysgu gyda rhiant.

Falfiau cymysgu thermostatig

Gallai falfiau cymysgu thermostatig arbed dros £3 miliwn y flwyddyn i'r GIG
Gallai gosod falfiau cymysgu thermostatig gyda thymheredd a reolir yn nhai cymdeithasol y DU arbed dros £3 miliwn y flwyddyn i'r GIG, yn ôl adroddiad newydd.

Ymchwil

Atal anafiadau

Argymhellion ymchwiliadau crwner
Mae'r ymchwil hon yn edrych ar nodweddion argymhellion crwneriaid ar gyfer atal anafiadau wrth gymhwyso Fframwaith Iechyd Cyhoeddus.

Marwolaethau carbon monocsid
Cynhaliwyd astudiaeth ar farwolaethau carbon monocsid heb gysylltiad â than, a'r berthynas rhwng hynny a ffynonellau carbon monocsid mewn cartrefi.

Anafu bwriadol
Cynhaliwyd ymchwil ar agweddau cymunedol at anafu bwriadol a'i atal.

Diogelwch ffyrdd

Trwyddedu graddedig i yrwyr
Edrychir ar drwyddedu graddedig i yrwyr fel modd i leihau lefelau gwrthdrawiadau ymhlith gyrwyr dibrofiad trwy eu cyflwyno'n raddol i

sefyllfaoedd gyrru risg uwch yn yr astudiaeth hon.

Arferion diogelwch plant mewn ceir
Roedd yr astudiaeth hon yn cynnwys arolwg arsylwadol o arferion diogelwch plant mewn ceir yng ngwladwriaeth Lagos, Nigeria.

Gwrthdrawiadau a gyrru peryglus
Roedd yr ymchwil hon yn cymharu lefelau gyrru peryglus ymhlith gyrwyr dibrofiad ifanc ac mewn oed yn ystod y 18 mis cyntaf wedi iddynt gael eu trwydded.

Yfed neu gymryd cyffuriau a gyrru pan fydd plant yn y car
Mae'r papur hwn yn edrych ar y goblygiadau i rai sydd yn gofalu ac ymyrraeth yn sgîl bod 'o dan ddylanwad' pan fydd plentyn yn y car.

Boddi a diogelwch yn y dwr

Dysgu diogelwch yn y dwr
Gwerthusiad yw hwn o gwricwlwm diogelwch dwr a gynhaliwyd mewn gwersyll haf mewn lleoliad trefol.

Syndromau boddi lluosog
Mae'r ymchwil hon yn edrych ar foddi anfwriadol, a damweiniau eilaidd wrth geisio achub rhywun.

Llosgi a sgaldanu

Anafiadau Llosgi sy'n galw am gyfnod yn yr ysbyty
Ymchwiliad oedd hwn i anafiadau llosgi oedd yn galw am gyfnod yn yr ysbyty yn ystod blwyddyn gyntaf bywyd, ac adolygwyd data clinigol a gasglwyd yn ystod triniaeth babanod o dan 1 oed yn yr ysbyty.

Ymddygiad plant ifanc o amgylch poptai microdon
Mae'r astudiaeth hon yn asesu gallu plant ifanc i dynnu eitemau allan o bopty microdon yn ddiogel.

Cadw'n ddiogel o amgylch cwn

Anafiadau i wynebau plant oherwydd i gwn eu cnoi
Nod yr adolygiad hwn oedd edrych ar 77 achos o gwn yn cnoi wynebau, a chynhyrchu graddfa ddifrifoldeb newydd.

Diogelwch gyda chwn
Roedd yr astudiaeth hon yn gwerthuso effeithiolrwydd meddalwedd a luniwyd i ddysgu plant sut i ymwneud â chwn yn ddiogel.

Cwympo

Astudiaeth ddisgrifiadol o blant o dan 15 oed yn cwympo
Mae'r astudiaeth hon yn dadansoddi achosion cwympo ymhlith plant o dan 15 oed sy'n byw yn Londrina, Paraná.

Cwympo o uchder mewn Pediatreg
Astudiaeth yw hon ar gwympo fel achos anafiadau a morbidrwydd y gellid ei atal ymhlith plant.

Chwaraeon a gweithgaredd corfforol

Tuedd i ddamweiniau beic achosi anafiadau abdomenol difrifol i blant: cyflwr y gellid ei atal
Damweiniau beic yw un o achosion cyffredin anafiadau abdomenol. Nod yr adolygiad hwn yw sefydlu tueddiad a ffactorau risg cysylltiedig anafiadau abdomenol sy'n ymwneud â beiciau.

Anafiadau difrifol i'r gwddf ymhlith chwaraewyr rygbi'r undeb o dan 19 oed
Roedd yr ymchwil hon yn edrych ar dderbyn chwaraewyr o dan 19 oed ym Mhrydain Fawr ac Iwerddon i'r ysbyty yn sgîl anafiadau i'r cefn, ac yn cymharu hynny ag uchafbwynt diweddar mewn anafiadau tebyg yn yr Alban.

Ffactorau risg ar gyfer anafiadau yn rygbi'r undeb (Seland Newydd)
Cynhaliwyd yr astudiaeth hon er mwyn canfod y prif ffactorau risg ar gyfer chwaraewyr rygbi amatur**.**

Anafiadau cysylltiedig â gweithgaredd corfforol
Mae'r astudiaeth hon yn disgrifio segurdod corfforol fel un o ffactorau risg anafiadau addysg gorfforol (Add Gorff), gweithgareddau corfforol amser hamdden a chwaraeon ymhlith plant 9-12 oed.

Risgiau tagu

Peryglon tagu
Nod yr astudiaeth hon oedd gwerthuso gwybodaeth rhieni ynghylch peryglon tagu yng nghyswllt bwyd a phethau heblaw bwyd yn y cartref.

Anafiadau batris botwm yn yr esoffagws
Mae'r papur hwn yn disgrifio achosion dau blentyn bach a ddioddefodd gymhlethdodau pan fu oedi cyn eu cyflwyno i ofal meddygol ar ôl llyncu batri botwm yn ddamweiniol.

Adolygiadau yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty

Trychiadau
Cynhaliwyd adolygiad ar yr wybodaeth ddemograffig ynghylch trychiadau trawmatig i blant a phobl ifanc o'r 1930au hyd heddiw.

Anabledd yn dilyn anaf i'r pen
Mae'r astudiaeth hon yn edrych ar yr achosion o anabledd 3, 12 a 24 mis wedi anaf trawmatig i'r ymennydd ymhlith plant a phobl ifanc.

Adnoddau

Moddion i Blant
Mae gwefan Moddion i Blant yn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol, ddibynadwy ynghylch rhoi moddion i blant - wedi ei hysgrifennu a'i hadolygu gan bediatregwyr, fferyllwyr, a rhieni a gofalwyr.

Crynodebau Ymchwil - iechyd a lles pobl ifanc
Mae Arsyllfa Iechyd Plant a Mamau yn gweithio gyda Chymdeithas Iechyd Pobl Ifanc (AYPH) i gynhyrchu Crynodebau Ymchwil ar faterion allweddol sy'n effeithio ar iechyd a lles pobl ifanc. Bydd y crynodebau hyn o gymorth i hybu arfer seiliedig ar dystiolaeth trwy sicrhau bod canfyddiadau ymchwil yn fwy hygyrch. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

Thank you,

Diolch,

Karen McFarlane

Development Officer: Child Safety
Swyddog Datblygu: Diogelwch Plant

If you would like to join the CHAPPIE network, please **click here.**

Os hoffech ymuno â'r Rhwydwaith CHAPPIE, **cliciwch yma**.

Forward email

SafeUnsubscribe

Trusted Email from Constant Contact FREE
Try it FREE today.

This email was sent to info@childreninwales.org.uk by info@childreninwales.org.uk |
Update Profile/Email Address | Instant removal with SafeUnsubscribe™ | Privacy Policy.
Children in Wales | 25 Windsor place | Cardiff | CF10 3BZ | null